## Cynulliad Cenedlaethol Cymru
## Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
### ST 03
### Ymchwiliad i Waith Athrawon Cyflenwi
### Tystiolaeth gan : Prifathro - Cynradd

<u>Cwestiynau'r ymgynghoriad</u>

| **Cwestiwn 1** – Beth yw eich barn ar ba mor gyffredin yw'r defnydd o athrawon cyflenwi, wedi'i gynllunio a heb ei gynllunio? |
|---|
| Gan fod [redacted] o 550 disgybl a 26 o athrawon mae ein defnydd o athrawon llanw yn gallu ymddangos yn uchel. Er hyn mae cyfraddau presenoldeb ein staff yn uchel – gweler isod<br><br>Absenoldebau athrawon oherwydd salwch mewn blwyddyn academaidd – 122 diwrnod a gollwyd<br>Presenoldeb athrawon – 97%<br><br>Mae'r sefyllfa yn wahaol ar gyfer cyrsiau ac hyfforddiant gan ein bod yn gallu blaengynllunio a pharatoi ar ei gyfer. Ar adegau o salwch ac absenoldebau heb eu cynllunio mae'r her yn fawr iawn ac rydym ar adegau yn gorfod defnyddio ein staff HLTA.<br><br>Ar adegau nid oes digon o athrawon cyflenwol ar gael yn enwedig pan bod hyfforddiant Sirol neu griw mawr yn golygu bod pob ysgol yn yr ardal angen athrawon llawn yn un diwrnod. |
| Os ydych o'r farn bod hyn yn arwain at broblemau (er enghraifft, ar gyfer ysgolion, disgyblion neu athrawon), sut y gellir eu datrys? |
| Pan na allwn sicrhau athrawon llanw yn naturiol mae hyn yn cael effaith ar rediad yr ysgol ac er ein bod yn gallu defnyddio HLTA rydym yn eu tynnu oddi wrth eu dyletswyddau arferol.<br><br>Defnyddio HLTA yw ein datrusiad ni i'r broblem er nad yw'n sefyllfa |

| | |
|---|---|
| ddelfrydol | |
| Pa mor arwyddocaol yw'r mater hwn? (Dewiswch un opsiwn) | |
| *1 – Mae hon yn broblem fawr a brys.* | |
| *2 – Mae hon yn broblem sydd angen sylw.* | 2 |
| *3 – Mae hon yn broblem fach.* | |
| *4 – Nid yw'n broblem.* | |
| **Cwestiwn 2 –** Beth yw eich barn ar yr amgylchiadau pan ddefnyddir athrawon cyflenwi? Er enghraifft: y math o ddosbarthiadau maent yn dysgu; y math o weithgareddau dysgu sy'n digwydd dan oruchwyliaeth athrawon cyflenwi; a ydynt yn gymwys i addysgu pynciau perthnasol. | |
| Mae amrywiaeth mawr yn ansawdd athrawon llanw ac nid gofalwyr ydynt ond athrawon. Mae gennym arweiniad clir i staff llanw yn nodi ein disgwyliadau ni ohonynt. Os nad ydynt yn cyflawni ein disgwyliadau ni fyddwn yn eu defnyddio eilwaith.<br><br>Mewn ardal di-Gymraeg fel Y Rhyl mae'n anodd recriwtio staff sydd a safon dda o'r Gymraeg ac felly mae'r pwll o staff yn fychan. | |
| Os ydych o'r farn bod problemau yn y maes hwn, sut y gellir eu datrys? | |
| ?? | |
| Pa mor arwyddocaol yw'r mater hwn? (Dewiswch un opsiwn) | |
| *1 – Mae hon yn broblem fawr a brys.* | |
| *2 – Mae hon yn broblem sydd angen sylw.* | 2 |
| *3 – Mae hon yn broblem fach.* | |
| *4 – Nid yw'n broblem.* | |

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn 3** – Beth yw eich barn ar effaith y defnydd o athrawon cyflenwi ar ganlyniadau disgyblion (gan gynnwys unrhyw effaith ar ymddygiad disgyblion)? | |
| Mae hyn yn ddibynnol iawn ar safon yr athrawon llanw. Os yw'r athro/awes wedi arfer gweithio yn yr ysgol nid yw'r effaith mor fawr.<br><br>Gwelir yr effaith mwyaf pan rydym yn defnyddio staff sydd yn newydd i'r ysgol. Mae cael cysondeb yn broblem yn enwedig os oes angen defnyddio sawl athro llanw am gyfnodau gwahanol. | |
| Os ydych o'r farn bod problemau yn y maes hwn, sut y gellir eu datrys? | |
| Trefniadau anwytho staff llanw<br>Llawlyfr Staff llanw<br>Monitro gofalus | |
| Pa mor arwyddocaol yw'r mater hwn? (Dewiswch un opsiwn) | |
| *1 – Mae hon yn broblem fawr a brys.* | |
| *2 – Mae hon yn broblem sydd angen sylw.* | 2 |
| *3 – Mae hon yn broblem fach.* | |
| *4 – Nid yw'n broblem.* | |
| **Cwestiwn 4** – Beth yw eich barn ar Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus athrawon cyflenwi ac effaith bosibl y Model Dysgu Proffesiynol Cenedlaethol? | |
| Prin iawn yw'r athrawon llanw sydd yn derbyn datblygiad personol digonol. Ar adegau mae'n rhaid i ni ddefnyddio staff llanw sydd wedi ymddeol ac felly weithiau ddim yn ymwybodol o'r newidiadau diweddaraf ym myd addysg. | |
| Os ydych o'r farn bod problemau yn y maes hwn, sut y gellir eu | |

| |
|---|
| datrys? |
| Mynnu bod staff llanw yn dilyn cyfres o ddyddiau HMS fel ag y mae staff parhaol yn wneud a'i fod yn ran o'u cytundeb / hawl i weithio. |
| Pa mor arwyddocaol yw'r mater hwn? (Dewiswch un opsiwn) |

| | |
|---|---|
| *1 – Mae hon yn broblem fawr a brys.* | |
| *2 – Mae hon yn broblem sydd angen sylw.* | 2 |
| *3 – Mae hon yn broblem fach.* | |
| *4 – Nid yw'n broblem.* | |

| |
|---|
| **Cwestiwn 5 –** Beth yw eich barn ar drefniadau rheoli perfformiad ar gyfer athrawon cyflenwi? |
| Prin iawn yw'r Rheoli Perfformiad i staff cyflenwol – gan nad ydynt yn yr ysgol am gyfnodau anodd yw gosod targedau ac ati ar eu cyfer. Mae angen strwythur ac arweiniad cliriach i ysgolion a staff cyflenwol ar ddatblygu hyn. |
| Os ydych o'r farn bod problemau yn y maes hwn, sut y gellir eu datrys? |
| System Genedlaethol o reoli perfformiad Athrawon Llanw sydd yn ateb anghenion Cenedlaethol. |
| Pa mor arwyddocaol yw'r mater hwn? (Dewiswch un opsiwn) |

| | |
|---|---|
| *1 – Mae hon yn broblem fawr a brys.* | |
| *2 – Mae hon yn broblem sydd angen sylw.* | 2 |
| *3 – Mae hon yn broblem fach.* | |
| *4 – Nid yw'n broblem.* | |

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn 6** – A ydych o'r farn bod gan awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol ddigon o oruchwyliaeth dros y defnydd o athrawon cyflenwi? | |
| Does fawr ddim goruchwyliaeth ond credaf y dylid gwneud mwy. | |
| Os ydych o'r farn bod problemau yn y maes hwn, sut y gellir eu datrys? | |
| Creu systemau cadarn i reoli a monitro hyn i sicrhau ansawdd cyson i athrawon cyflenwol. | |
| Pa mor arwyddocaol yw'r mater hwn? (Dewiswch un opsiwn) | |
| *1 – Mae hon yn broblem fawr a brys.* | |
| *2 – Mae hon yn broblem sydd angen sylw.* | 2 |
| *3 – Mae hon yn broblem fach.* | |
| *4 – Nid yw'n broblem.* | |
| **Cwestiwn 7** – A ydych yn ymwybodol o unrhyw amrywiaeth leol a rhanbarthol yn y defnydd o athrawon cyflenwi? Os felly, a oes rhesymau am hynny? | |
| N/A | |
| Os ydych o'r farn bod problemau yn y maes hwn, sut y gellir eu datrys? | |
| | |
| | |
| *1 – Mae hon yn broblem fawr a brys.* | |
| *2 – Mae hon yn broblem sydd angen sylw.* | 2 |
| *3 – Mae hon yn broblem fach.* | |

| | |
|---|---|
| *4 – Nid yw'n broblem.* | |

**Cwestiwn 8** – A oes gennych unrhyw farn ar asiantaethau cyflenwi a'u trefniadau sicrhau ansawdd?

Ar adegau mae'n rhaid i ni ddefnyddio asiantaethau cyflenwi er mwyn ateb anghenion yr ysgol. Er bod rhywfaint o drefniadau sicrhau ansawdd heb arsyli y staff yn y dosbarth ni ellir cyflawni hyn yn llawn.

Os ydych o'r farn bod problemau yn y maes hwn, sut y gellir eu datrys?

Gorfodaeth ar asiantaethau cyflenwi i sicrhau datblygiad proffesiynol, rheoli perfformiad ac ansawdd eu staff.

Pa mor arwyddocaol yw'r mater hwn? (Dewiswch un opsiwn)

| | |
|---|---|
| *1 – Mae hon yn broblem fawr a brys.* | |
| *2 – Mae hon yn broblem sydd angen sylw.* | 2 |
| *3 – Mae hon yn broblem fach.* | |
| *4 – Nid yw'n broblem.* | |

**Cwestiwn 9** – A ydych yn ymwybodol o unrhyw faterion penodol yn ymwneud ag addysg cyfrwng Cymraeg? Os felly, beth ydynt?

Yn ardal Y Rhyl mae'n her fawr i ddennu staff Cymraeg ac fel arfer wrth hysbysebu dim ond ychydig o ymgeiswyr a gawn. O gymharu ag ysgolion Saesneg y dref mae'r niferoedd sydd yn ymgeisio yn y sector Gymraeg yn llawer iawn llai ac felly yn ein gosod o dan anfantais.

Os ydych o'r farn bod problemau yn y maes hwn, sut y gellir eu datrys?

Gwneud addysg Gymraeg mewn ardaloedd difreintiedig lle nad oes llawer o Gymry Cymraeg yn fwy deniadol e.e. bwrseriaeth

| Pa mor arwyddocaol yw'r mater hwn? (Dewiswch un opsiwn) | |
|---|---|
| *1 – Mae hon yn broblem fawr a brys.* | 1 |
| *2 – Mae hon yn broblem sydd angen sylw.* | |
| *3 – Mae hon yn broblem fach.* | |
| *4 – Nid yw'n broblem.* | |

| **Cwestiwn 10** – Os byddai'n rhaid ichi wneud un argymhelliad i Lywodraeth Cymru o'r holl bwyntiau rydych wedi'u nodi, beth fyddai'r argymhelliad hwnnw? |
|---|
| Sicrhau mwy o systemau sydd yn dennu staff cyflenwol o ansawdd i’r sector Gymraeg |
| **Cwestiwn 11** – A oes gennych unrhyw sylwadau neu faterion eraill yr hoffech eu codi na soniwyd amdanynt yn y cwestiynau penodol? |
| |